Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cynllun Taliadau

2018-19

dwrcymru.com

# Mynegai

Diffiniad o dermau .................. .03

Cynnwys ..................................05

**Y stori nid er elw**

Ble y caiff eich arian ei fuddsoddi – cewch wybod yn **dwrcymru.com/gwahanol**

# Diffiniad o dermau

**Defnyddir y diffiniadau isod yn y Cynllun hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:**

**'Adnewyddu'** – unrhyw waith a wneir yn yr eiddo o baentio ac addurno i waith strwythurol.

**'Ailddatblygiad'** – safle lle newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu fwy yn un, adeiladu swyddfeydd ar safle hen ffatri, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i gyflenwad preswyl.

**'Carthion domestig'** – cynnwys toiledau, dŵr a ddefnyddir ar gyfer coginio neu olchi, a dŵr wyneb ond nid dŵr a ddefnyddir ar gyfer busnes golchi dillad na busnes sy'n paratoi bwyd neu ddiod i'w fwyta/yfed oddi ar y safle (gweler Adran 117 o'r Ddeddf).

**'Cwmni Bilio'** – cwmni heblaw am Dŵr Cymru Cyfyngedig sy'n cyflenwi dŵr i unrhyw safle ac sy'n gyfrifol am gasglu'r taliadau carthffosiaeth mewn perthynas â'r safle hwnnw ar ran Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cwmni'** – Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cwsmer neu ddarpar gwsmer'** – unigolyn sy'n cael gwasanaeth gan y Cwmni neu sy'n atebol am dalu taliadau yn unol â chynllun taliadau'r Cwmni, neu unigolyn a allai ddod yn unigolyn o'r fath o wneud cais at y diben hwnnw i'r Cwmni.

**'Cysylltiad'** – cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, y caiff y cwsmer fudd gwasanaethau'r Cwmni drwy hynny.

**'Deddf'** – Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**'Deiliad'** – yn ogystal ag unrhyw unigolyn sy'n byw ar safle, unrhyw unigolyn sy'n cynnal a chadw safle a gaiff ei ddefnyddio neu y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel annedd neu swyddfa neu safle masnachol sy'n cynnwys dodrefn ac sy'n barod i'w osod.

— cynnal a chadw unrhyw safle newydd neu safle wedi'i addasu sy'n barod i'w roi ar werth neu ar osod

— cynnal a chadw unrhyw safle arall mewn cyflwr y gellir ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd

— cynnal a chadw safle amlfeddiannaeth gyda chyfleusterau a rennir neu hostel gwyliau neu hostel i fyfyrwyr neu lety arall ar gyfer daliadaeth neu i'w rentu am gyfnod byr.

**'Dibenion preswyl'** – yn gyffredinol cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog ac iechyd, fel y'u diffinnir yn Adran 218 o'r Ddeddf.

**'Dibreswyl'** – safle/cwsmer heblaw am safle/cwsmer preswyl. Gweler uchod am ddiffiniad o safle preswyl.

**'Dŵr anyfadwy'** – dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Dŵr yfadwy'** – dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Elifion masnach'** – unrhyw hylif, sy'n cynnwys mater mewn daliant ai peidio, a gaiff ei gynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan fasnach neu ddiwydiant ar safle masnach ond nad yw'n cynnwys carthion domestig, fel y'u diffinnir yn Adran 141 o'r Ddeddf.

**'Gwerth Ardrethol'** – gwerth a ddangosir ar y rhestr brisio a gedwir gan awdurdod ardrethu o dan Ran V o Ddeddf yr Ardreth Gyffredinol 1967 ar 31 Mawrth 1990, ac sy'n cynnwys gwerthoedd ardrethol a gynigir ar y dyddiad hwnnw ac sy'n dod yn effeithiol ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny.

**'Hysbysiad o daliadau mesuredig'** – cais gan y Cwsmer i'r Cwmni bennu taliadau mewn perthynas â'r cyflenwad yn seiliedig ar faint o ddŵr a gyflenwir. (Fel y'i disgrifir yn Adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999). Bydd y Cwmni yn derbyn ceisiadau a wneir drwy ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 0140**.

**'Mesuryddion'** – mae gan fesurydd **'y gellir ei sgriwio i mewn'** byrth consentrig er mwyn ei gysylltu â phibellau i greu cysylltiad sengl a dyma'r math a osodir ym mlwch ffin safonol y Cwmni fel arfer. Mae gan fesurydd **'ar y llinell'** gysylltiad pibell ar y ddau ben.

**'Pibell gyflenwi'** – unrhyw ran o bibell wasanaeth na ellid bod yn ofynnol neu na fu'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Pibell wasanaeth'** – y bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

**'Preswyl'** – unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat ai peidio, neu os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn arbennig, mae tŷ yn cynnwys fflat ond nid carafán na chartref symudol sydd wedi'i leoli dros dro.

**'Safle'** – adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad dŵr. Mae adeilad yn cynnwys tŷ neu ran o adeilad y gellir ei meddiannu ar wahân.

**'Safle unigol'** – safle o fewn un lleoliad.

**'Tâl seilwaith'** – tâl seilwaith dŵr neu dâl seilwaith dŵr gwastraff.

**'Tenantiaeth tymor penodol'** – unrhyw denantiaeth heblaw am denantiaeth gyfnodol.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 6
2. Cwynion ........ 7
3. Treth ar Werth ........ 9
4. Atebolrwydd am daliadau ........ 9
5. Sut y byddwn yn codi tâl arnoch ........ 11
6. Sut i dalu ........ 19
7. Dogfennau taliadau eraill ........ 22
8. Taliadau preswyl ........ 23
9. Taliadau dibreswyl ........ 26
10. Taliadau elifion masnach ........ 29
11. Taliadau eraill ar gyfer mesuryddion ........ 33
12. Taliadau amrywiol ........ 35
13. Taliadau seilwaith ........ 36

# 1. Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys 'Cynllun Taliadau' y Cwmni a wnaed o dan ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Bydd y taliadau a nodir yn y llyfryn hwn yn gymwys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Yn unol â dyletswydd y Cwmni o dan y Ddeddf a'i Drwydded (yr Offeryn Penodi) fel darparwr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ei ardal, mae'r Cwmni wedi cymryd camau i sicrhau nad yw'r taliadau yn gwahaniaethu yn erbyn, neu'n ffafrio'n ormodol, unrhyw ddosbarth o bobl.

Mae'r Cwmni yn darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, ac elifion masnach i gartrefi, swyddfeydd, busnesau a ffatrïoedd yn yr ardal a nodir ar y map isod.

Pan fydd y Cwmni yn darparu gwasanaethau dŵr yn unig a chwmni arall yn darparu'r gwasanaethau carthffosiaeth, bydd Dŵr Cymru yn cyhoeddi bil ar ran y ddau ddarparwr gwasanaethau. Yn yr ardaloedd hynny lle mai dim ond y gwasanaeth carthffosiaeth a ddarperir gan Dŵr Cymru, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth dŵr yw'r cwmni bilio.




Gall cwsmeriaid sy'n bwriadu symud i eiddo newydd gysylltu â'r Cwmni drwy ffonio **0800 052 0145** neu drwy anfon e-bost i **water.enquiries@dwrcymru.com** er mwyn cadarnhau ar ba sail y byddent yn talu eu taliadau ar gyfer yr eiddo.

Mae'r Cwmni yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth i gwsmeriaid am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Ceir manylion amdanynt ar ein gwefan yn **dwrcymru.com**

# 2. Cwynion

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro – ond gwyddom y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Ein ffordd ddewisol o ddelio â chwynion yw dros y ffôn, gan mai hon yw'r ffordd gyflymaf o'u datrys. Gall cwsmeriaid ein ffonio ar un o'r rhifau canlynol:

**Bilio a chyfrifon**
0800 052 6058

**Gwasanaethau ac argyfyngau dŵr**
0800 052 0130

**Gwasanaethau ac argyfyngau carthffosiaeth**
0800 085 3968

**Tîm Cwsmeriaid Busnes**
0800 260 5051

Os ydych wedi ein ffonio a'ch bod am wneud cwyn o hyd, gallwch gysylltu drwy e-bost neu lythyr. I sicrhau bod eich cwyn yn cyrraedd y tîm cywir, defnyddiwch un o'r cyfeiriadau isod. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb i'ch cwyn, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch ysgrifennu atom i ofyn i un o'n Cyfarwyddwyr gynnal adolygiad.

I wneud hyn, cysylltwch â ni eto gan ddefnyddio'r cyfeiriad perthnasol isod:

**Bilio a chyfrifon**
Water.enquiries@dwrcymru.com

Gwasanaethau Bilio Cwsmeriaid
Dŵr Cymru
Blwch SP 690
CF3 5WL

**Gwasanaethau dŵr**
Water.operations.enquiries@dwrcymru.com

Gwasanaethau Cwsmeriaid Dŵr
Dŵr Cymru
Blwch SP 3118
CF30 0BY

**Ymholiadau carthffosiaeth**
Sewerage@dwrcymru.com

Gwasanaethau Cwsmeriaid Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Blwch SP 3118
CF30 0BY

**Gwasanaeth Rheoli Cyfrifon Busnes**
BCT@dwrcymru.com

Tîm Cwsmeriaid Busnes
Blwch SP 3162
Caerdydd
CF30 0FD

Os byddwn wedi adolygu eich cwyn yn llawn a'ch bod yn credu y gallem fod wedi gwneud mwy, gallwch ofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygu eich achos. Mae hwn yn gorff annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn ymchwilio i gwynion. Gallwch ymweld â'i wefan **www.ccwater.org.uk**, ei ffonio ar **0300 034 3333**, neu ysgrifennu ato yn;

**Consumer Council for Water**
c/o 1st Floor,
Victoria Square House,
Victoria Square,
Birmingham,
B2 4AJ

Dim ond cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ymchwilio iddynt fel arfer. Wrth ysgrifennu ato, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ymateb a gawsoch gan y Cwmni.

Os yw eich cwyn wedi'i hadolygu'n llawn gennym ni a gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a'ch bod yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â WATRS. Mae WATRS yn wasanaeth dyfarnu annibynnol, am ddim, sy'n adolygu anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau lle nad yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi gallu eu datrys a phenderfynwyd na ellir gwneud rhagor. Nodir ei fanylion cyswllt isod; gallwch wneud cais ar ei wefan neu ofyn iddo anfon ffurflen gais atoch.

**WATRS**
International Dispute Resolution Centre
70 Fleet Street
London
EC4Y 1EU

0207 123 4567
www.watrs.org

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat. Nodir y rhain yn yr adrannau perthnasol o'r llyfryn hwn. Ei fanylion cyswllt yw:

**The Water Services Regulation Authority (OFWAT)**
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA

0121 644 7500
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ohebiaeth ag Ofwat gynnwys copïau o ohebiaeth gyda'r Cwmni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Mae gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno ar gael yn ein llyfryn 'Sut rydym yn delio â'ch cwynion a'ch canmoliaeth'. Mae hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn **dwrcymru.com**

## 3. Treth ar Werth

Caiff TAW ei hychwanegu at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar gyfer adeiladu) i gwsmeriaid sy'n cyflawni gweithgarwch diwydiannol a ddiffinnir gan is-adrannau 1-5 o Restr Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 1980 (SIC). Caiff TAW ei chodi yn unol â'r gyfradd bresennol pan gaiff y bil ei anfon. Mae taliadau cyflenwi dŵr i bob cwsmer arall ar gyfradd sero at ddibenion TAW.

## 4. Atebolrwydd am daliadau

Mae taliadau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn daladwy ar gyfer pob safle sy'n cael cyflenwad dŵr neu wasanaeth carthffosiaeth, p'un a gaiff y fath gyflenwadau eu defnyddio ai peidio. Mae taliadau am y gwasanaethau hyn yn daladwy gan ddeiliad eiddo ac eithrio pan fydd cytundeb penodol rhwng trydydd parti a'r Cwmni i dalu'r taliadau. Pan fydd mwy nag un deiliad, yna gall y Cwmni ofyn i unrhyw ddeiliad dalu'r bil cyfan os na fydd y deiliaid eraill yn gwneud hynny. Pan fydd un mesurydd yn cyflenwi dau eiddo neu fwy, bydd y taliadau'n daladwy gan yr unigolyn a nodwyd gan y Cwmni fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am y mesurydd. Cyfrifoldeb y gwahanol ddeiliaid yw rhannu'r bil cyfan a chasglu'r arian.

Yn gyffredinol, y deiliad sy'n gyfrifol am hysbysu'r Cwmni am unrhyw newid o ran y bobl sy'n byw yno. O 1 Ionawr 2015, daeth perchennog eiddo preswyl yn gyfrifol am hysbysu'r Cwmni am y bobl sy'n byw yn ei eiddo (o dan Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchenogion) 2014). Felly, mae'n rhaid i landlordiaid bellach, ar ôl hysbysu'r tenantiaid eu bod am ddarparu'r wybodaeth hon ac y caiff ei defnyddio gan y Cwmni at ddibenion bodloni'r holl ofynion bilio gan gynnwys casglu dyledion, olrhain a gorfodi (lle y bo'n briodol), ddarparu'r manylion canlynol i'r Cwmni:

— enwau llawn pob oedolyn sy'n byw yn yr eiddo

— dyddiad geni pob oedolyn sy'n byw yn yr eiddo (pan fo'r wybodaeth hon wedi'i rhannu â'r perchennog)

— y dyddiad neu'r dyddiadau y daethant i fyw yno.

Ynghyd â manylion y landlord, bydd y wybodaeth hon yn rhan o gofnodion cwsmer y Cwmni a gallant gael eu defnyddio at ddibenion eraill gan gynnwys gweinyddu'r cyfrif, tariffau, talu biliau, gwella gwasanaethau a gofynion rheoliadol.

Os bydd perchennog yn methu â hysbysu'r Cwmni o fewn 21 diwrnod fod cwsmer yn byw yn yr eiddo, yna daw'r perchennog, ar y cyd ac yn unigol, yn atebol am daliadau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth tan y caiff y manylion hyn eu darparu.

Y ffordd hawsaf i berchnogion ddarparu'r wybodaeth hon yw drwy'r Porth Cyfeiriadau i Landlordiaid a Thenantiaid yn **www.landlordtap.co.uk**.

Fel arall, gallant gysylltu â'r Cwmni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Gwefan: landlordtap.co.uk.
Ffôn: 0800 052 0145
E-bost: water.enquiries@dwrcymru.com
Post: Dŵr Cymru Welsh Water, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Blwch SP 690,Caerdydd, CF3 5WL

Bydd cwsmer sy'n cael gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth yn parhau i fod yn atebol am y taliadau yn llawn tra bod y safle yn cynnwys dodrefn a/neu ffitiadau, yn cael ei adnewyddu neu'n cael ei ddefnyddio fel arall. Bydd taliadau yn aros yr un fath oni wneir cais i droi'r cyflenwad dŵr i ffwrdd. Fodd bynnag, gall taliadau draenio dŵr wyneb barhau i fod yn gymwys.

Ni chodir tâl lle gall cwsmeriaid brofi bod yr eiddo yn wag oherwydd amgylchiadau eithriadol (e.e. marwolaeth neu gyfnod hir yn yr ysbyty).

Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i ofyn i gwsmeriaid dibreswyl roi blaendal sicrwydd mewn arian parod neu fath arall o gyllid wedi'i sicrhau. Bydd y blaendal sicrwydd yn hafal i daliadau dros un cylch bilio ynghyd â thri mis. Fel arfer bydd taliadau cyfartalog yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol yn ystod y flwyddyn flaenorol neu yn achos cwsmeriaid newydd, yn seiliedig ar amcangyfrif rhesymol o'r taliadau sydd i'w talu yn y flwyddyn gyfredol. Efallai y bydd angen blaendal sicrwydd os bydd y Cwmni o'r farn ei bod yn rhesymol briodol o ystyried hanes talu'r cwsmer, ei statws credyd (os oes ganddo un) a'i adnoddau ariannol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i allu neu barodrwydd y cwsmer i dalu am y gwasanaethau a ddarperir. Gall y gofyniad i roi sicrwydd neu'r swm a ddelir gael ei adolygu gan y Cwmni neu ar gais y cwsmer i adlewyrchu newidiadau o ran faint o wasanaethau a ddarperir neu'r newidiadau i'r statws credyd.

Ceidw'r Cwmni'r hawl i addasu taliadau yn ôl-weithredol mewn achosion o wall neu dwyll.

# 5. Sut y byddwn yn codi tâl arnoch

## Mesuredig

Mae eich bil mesuredig yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddir, ac mae mesurydd wedi'i osod ym mhob eiddo a adeiladwyd ers 1 Ebrill 2000. Os byddwch yn symud i eiddo sy'n fesuredig, ni allwch newid i dalu ar sail anfesuredig.

Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i osod mesurydd yn yr eiddo, yn ddarostyngedig i amodau penodol, lle ceir tystiolaeth bod llawer mwy o ddŵr yn cael ei ddefnyddio. Mae'n rhaid i ddŵr eiddo sydd â phwll nofio a gaiff ei ail-lenwi'n awtomatig neu sy'n defnyddio dyfeisiau dyfrio awtomatig (h.y. nid pibellau dŵr a ddelir â llaw) gael ei fesur.

Caiff biliau preswyl mesuredig eu hanfon bob chwe mis ac maent yn seiliedig ar ddefnydd go iawn a nodir ar y mesurydd neu amcangyfrif os nad yw'r mesurydd wedi'i ddarllen. Mae'r Cwmni yn ceisio darllen pob mesurydd o leiaf unwaith bob chwe mis. Fodd bynnag os na chaiff y mesurydd ei ddarllen, gall y Cwmni ofyn i'r cwsmer ddarparu darlleniad lle y bo'n ddiogel i wneud hynny, neu drefnu apwyntiad cyfleus gyda'r cwsmer i gael darlleniad, neu gall amcangyfrif y defnydd.

Yn gyffredinol, po fwyaf o ddŵr a ddefnyddiwch y mwyaf fydd y bil. Fel arfer codir tâl am garthffosiaeth ar y dybiaeth bod 95% o'r dŵr a ddefnyddir yn dychwelyd i'r garthffos. Pan fydd bil mesurydd yn cynnwys cyfnod cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2018, byddwn yn defnyddio cyfraddau 2017/18 i godi tâl am y dŵr a ddefnyddiwyd cyn 1 Ebrill 2018 a chyfraddau 2018/19 i godi tâl am y dŵr a ddefnyddir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae gennym yr hawl i osod mesurydd ar bob safle dibreswyl, gan gynnwys unrhyw gyflenwadau preifat sy'n gollwng i'n carthffos.

Mae'r tâl mesuredig yn cynnwys tair elfen:

**Cyflenwad dŵr** – yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd mewn metrau ciwbig. Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân. Gellir codi tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân oni roddir 7 diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig i'r Cwmni yn y cyfeiriad post a ddangosir yn Adran 2.

**Carthffosiaeth** – hefyd yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd.

Mae'r tâl carthffosiaeth yn cynnwys tâl am ddŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, ni fydd angen i chi dalu'r elfen dŵr wyneb. Gellir gofyn am ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ffonio **0800 052 0145** (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes). Bydd unrhyw ad-daliad yn weithredol o 1 Ebrill 2014 neu'r dyddiad meddiannu os yw'n hwyrach. Lle bo tystiolaeth nad yw dŵr wyneb yn dychwelyd i'r garthffos, fel arfer fflatiau mewn adeilad cyffredin, gall y cwmni hysbysu cwsmeriaid ac addasu eu taliadau yn unol â hynny. Er ein bod yn parhau i adolygu'n gyson yr opsiwn o wneud ad-daliadau rhannol i gwsmeriaid sydd wedi gwneud ymdrech i leihau eu gollyngiadau dŵr wyneb, byddai

angen ymdrin â nifer o faterion gweithredu cyn y gellid cynnig unrhyw ad-daliad. Am y rheswm hwn, gall y Cwmni ond cynnig ad-daliadau llawn i gwsmeriaid sy'n gymwys ar hyn o bryd. Gan nad yw Dŵr Cymru yn codi tâl am ddraenio dŵr wyneb yn ôl ardal, ni chynigir unrhyw ostyngiad i grwpiau cymunedol heblaw am yr ad-daliad llawn.

Yn achos y mwyafrif o gwsmeriaid, rydym yn tybio bod y dŵr i gyd, bron, yn dychwelyd i'r garthffos heblaw am, er enghraifft, dŵr a ddefnyddir i goginio neu i ddyfrio'r ardd. Felly, caiff elfen carthffosiaeth y bil mesuredig ei chyfrifo ar sail tua 95% o'r holl ddŵr a ddefnyddir.

Lle defnyddir llai na 10m3 o ddŵr mewn unrhyw gyfnod bilio, codir tâl llawn at ddibenion carthffosiaeth. Os credwch fod llai na 95% o'ch dŵr yn dychwelyd i'r garthffos a'ch bod yn gallu profi hyn drwy ei fesur, gallwch hawlio gostyngiad ar eich taliadau carthffosiaeth. Gellir cael ffurflenni cais ar gyfer lwfans am beidio â gollwng dŵr yn ôl i'r garthffos ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ffonio **0800 052 0145** (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes). Y dyddiad gweithredol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1 Ebrill yn y flwyddyn filio y caiff y cais ei dderbyn.

**Tâl Gwasanaeth** – caiff ei gyfrifo'n ddyddiol ac mae'n seiliedig ar faint y mesurydd. Mae'r tâl gwasanaeth yn cynnwys y gost o ddarllen a chynnal a chadw'r mesurydd a gosod un newydd pan fydd angen.

## Ailddatblygu safle

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i safle sy'n bodoli eisoes sy'n arwain at greu safle ychwanegol neu gyfuno safleoedd sy'n bodoli eisoes gael eu gwneud yn y fath fodd fel bod pob rhan o'r safle wedi'i chysylltu â phrif bibell ddŵr y Cwmni ar wahân ac y gellir eu mesur ar wahân. Mae'n rhaid i bob cwsmer dalu costau newidiadau priodol i'r pibellau. Os na wneir hynny, gall y Cwmni wneud y gwaith angenrheidiol ac adennill y costau. Os nad yw mesuryddion yn ymarferol, neu hyd nes bod mesurydd yn cael ei osod, gellir asesu gwerth codi tâl neu daliad, yn seiliedig ar werth ardrethol tybiannol (Tâl Gwasanaeth Unffurf) neu Dâl Mesuredig ar sail Asesiad ar yr amod bod y cwsmer yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Yn achos cysylltiad anghyfreithlon, bydd y Cwmni yn cymryd pob cam cyfreithiol priodol ac yn ceisio pob datrysiad sifil priodol.

## Mesurydd Opsiwn

Gall cwsmeriaid preswyl (ac eithrio tenantiaid preswyl gyda thenantiaethau tymor penodol o lai na chwe mis, y gall fod angen caniatâd arnynt yn unol â thelerau'r cytundeb tenantiaeth) ofyn am i fesurydd gael ei osod i'w cyflenwad. Gellir gwneud cais i osod mesurydd ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 0140** (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes).

Mae tabl cyfrifo hawdd i'w ddefnyddio ar gael ar ein gwefan i helpu cwsmeriaid i weld a fyddai gosod mesurydd o fudd iddynt. Ar ôl cael hysbysiad o daliadau mesuredig, bydd y Cwmni yn gosod mesurydd am ddim, ar yr amod ei fod yn rhesymol ymarferol i'w osod ac na fydd gwneud hynny yn arwain at gostau afresymol. Byddai costau afresymol yn cynnwys cost

rhannu pibell gyflenwi gyffredin, cost addasiadau sylweddol i waith plymio sydd eisoes yn bodoli i alluogi'r mesurydd i gael ei osod neu gost mesuryddion ychwanegol os yw'r cwsmer yn cael mwy nag un cyflenwad. Bydd y Cwmni yn gosod y mesurydd o fewn tri mis i gael y cais. Os bydd y Cwmni yn methu â chyrraedd y safon hon bydd y cwsmer yn cael taliad o £20 am bob mis ychwanegol y tu hwnt i'r dyddiad targed ar gyfer gosod y mesurydd. Ni fydd y taliad yn gymwys pan fydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cwmni yn atal y mesurydd rhag cael ei osod. Fel arfer, bydd y Cwmni yn gosod mesurydd y tu allan i'r safle mewn blwch ffin.

Gall y cwsmer ofyn i'r Cwmni osod y mesurydd mewn lleoliad arall (ar yr amod bod y Cwmni yn ystyried ei fod yn ymarferol gwneud hynny). Fodd bynnag byddai hynny'n golygu codi tâl ychwanegol ar y cwsmer. Rhoddir manylion am y tâl ar gais. Efallai na fydd y tâl yn berthnasol i gwsmeriaid cymwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Ychwanegol. Codir tâl ar y cwsmer ar sail anfesuredig hyd nes y caiff y mesurydd ei osod. Mae'r mesurydd yn aros yn eiddo i'r Cwmni.

Gall cwsmeriaid dibreswyl ofyn i fesurydd gael ei osod i'w cyflenwad hefyd gan ddilyn y broses a ddisgrifir uchod.

Caiff lwfans untro ei ddyfarnu i gwsmeriaid preswyl yn erbyn eu taliadau dŵr o ran y dŵr mesuredig a gollwyd pan fydd gollyngiad ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth wedi'i drwsio.

Ar gyfer safleoedd defnydd cymysg h.y. safle dibreswyl wedi'i gyfuno â safle preswyl, er enghraifft, cyflenwad fferm gan gynnwys y ffermdy neu dafarn gyda fflat uwchben, rhoddir lwfans dŵr ar gyfer elfen breswyl y bil yn unig. Rydym yn cyfrifo'r lwfans ar gyfer yr elfen breswyl ar sail y ffigurau defnydd blynyddol a ddefnyddir gennym i gyfrifo ein tariff mesuredig ar sail asesiad. Ni roddir lwfansau dŵr i gwsmeriaid dibreswyl.

Gall cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid dibreswyl fod yn gymwys i gael lwfans carthffosiaeth ar gyfer y gollyngiad cyntaf a gollyngiadau dilynol lle nad yw'r dŵr a gollwyd o ganlyniad i ollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos. Mae'n rhaid gwneud cais am lwfans o fewn chwe mis i drwsio gollyngiad. Ni chaiff lwfans ei roi os mai esgeulustod y cwsmer neu rywun yn gweithredu ar ran y cwsmer sydd wedi achosi'r gollyngiad.

Gellir cael rhagor o fanylion yng nghyhoeddiadau'r Cwmni 'Cod Ymarfer Gollyngiadau' 'Gollyngiadau Dŵr – yr hyn sydd angen i chi ei wneud' ac 'Eich Mesurydd Dŵr'. Mae copïau o'r cyhoeddiadau hyn ar gael ar ein gwefan yn **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 0140** (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes).

Os bydd unrhyw gwestiwn neu anghydfod am unrhyw agwedd ar osod y mesurydd, dylai cwsmeriaid gysylltu â ni yn y lle cyntaf ar **0800 052 0140** (neu 0800 260 5051 os ydynt yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes), neu fel arall gallant gyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad ar dudalen 8.

## Tâl Mesuredig ar sail Asesiad – Preswyl

Gall cwsmer preswyl ddewis tâl mesuredig ar sail asesiad (AMC) pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu os yw'n afresymol o ddrud i'w osod. Mae tâl mesuredig ar sail asesiad yn seiliedig ar fand y tâl dŵr, nifer y deiliaid a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ollwng i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, caiff y tâl mesuredig ar sail asesiad ei ailgyfrifo yn seiliedig ar y deiliaid newydd gydag opsiwn i'r cwsmer ddychwelyd i ddull codi tâl ar sail anfesuredig. Bydd hawl gan y deiliad newydd wneud cais am opsiwn mesurydd a chaiff dichonoldeb gosod mesurydd ar y safle ei ailasesu.

## Dychwelyd i daliadau anfesuredig

Gall unrhyw gwsmer preswyl sy'n newid i fesurydd opsiwn neu dâl mesuredig ar sail asesiad, ar unrhyw adeg hyd at fis ar ôl i'r Cwmni anfon biliau am 24 mis o'r dyddiad y gosodwyd y mesurydd neu y cymhwyswyd y tâl mesuredig ar sail asesiad, wneud cais i ddychwelyd i'r tâl anfesuredig blaenorol, ar yr amod nad yw'r cwsmer wedi trefnu i fesurydd gael ei osod yn flaenorol neu wedi talu biliau'n seiliedig ar y tâl mesuredig ar sail asesiad ac na fyddai'r cyflenwad yn destun mesur gorfodol.

## Tâl Mesuredig ar sail Asesiad – Dibreswyl

Pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu ei fod yn afresymol o ddrud, gall y Cwmni godi tâl ar sail asesiad. Mae'r tâl mesuredig ar sail asesiad yn seiliedig ar fand y tâl dŵr a bennir gan y math o fusnes a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ollwng i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, bydd y safle'n parhau ar y tâl mesuredig ar sail asesiad ond mae'n bosibl y caiff y band ei ailasesu yn seiliedig ar natur busnes y deiliad newydd.

## Eiddo â system chwistrellu dŵr ddomestig wedi'i gosod

Codir tâl ar eiddo gyda system chwistrellu dŵr ddomestig wedi'i gosod o dan Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 ar sail fesuredig yn unol â'r dŵr a ddefnyddir. Ni chodir tâl am ddŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân. Os na all mesurydd priodol gael ei osod ar unwaith, codir Tâl Mesuredig ar sail Asesiad ar yr eiddo hyd nes y caiff mesurydd ei osod.

## Tariff Diwydiannol

Pan fydd cwsmeriaid yn defnyddio llawer o ddŵr ar safle unigol (50,000 metr ciwbig/50Ml) a/neu os bydd 100,000 metr ciwbig (100 Ml) neu fwy o garthion yn cael eu gollwng o un safle mewn blwyddyn, gallant ddewis un o'r bandiau tariff diwydiannol. Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a gaiff ei ddefnyddio a'i ollwng rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 ac yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn (sy'n cynnwys tâl sefydlog blynyddol ar gyfer y mesurydd cyntaf)
- Tâl gwasanaeth ychwanegol ar gyfer pob mesurydd ychwanegol yn seiliedig ar faint y mesurydd
- Tâl cyfeintiol

Fel arfer codir y tâl o ddiwrnod cyntaf y mis pan geir y cais a bydd yn parhau yn y dyfodol oni bai bod y cwsmer yn gofyn am newid band yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Ni wnaiff y Cwmni dderbyn mwy nag un cais ym mhob mis calendr i newid tariff unrhyw bwynt cyflenwi.

## Tariff Elifion Masnach

Caniateir i fasnachwyr ollwng elifion masnach yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i garthffos gyhoeddus ar yr amod bod y Cwmni wedi rhoi caniatâd ar gyfer elifion masnach. Bydd cytundeb o'r fath yn nodi'r amodau o ran maint ac ansawdd a chaiff yr elifion eu samplu yn rheolaidd i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau. Mae'r taliadau'n daladwy o'r dyddiad y rhoddir caniatâd ar gyfer elifion masnach. Gellir gollwng elifion i waith trin carthion neu ollyngfa i'r môr.

Ceir dau fath o dâl elifion:

- Y tâl safonol ar gyfer gollwng llai na 100Ml y flwyddyn
- Y tâl diwydiannol ar gyfer gollwng mwy na 100Ml y flwyddyn

Mae taliadau elifion masnach yn cynnwys tâl sefydlog a thaliadau amrywiadwy sy'n amrywio yn ôl cyfaint yr elifion a ollyngir a'u cryfder mewn sampl.

Anfonir y biliau bob Mis, bob Chwarter neu bob Chwe Mis mewn ôl-daliadau, yn ddibynnol ar y tâl misol ar gyfartaledd. Mae'r taliadau yn daladwy o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonir y bil a gallwch eu talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, BACS neu siec.

Gellir codi tâl am garthffosiaeth ddomestig hefyd, a gyfrifir yn bennaf drwy ystyried y cyfleusterau, nifer y bobl a nifer y dyddiau a weithiwyd, a chaiff bil ei anfon yn erbyn cyfrif ar wahân ynghyd ag unrhyw daliadau dŵr a gaiff eu bilio gan y cwmni.

## Anfesuredig

Os adeiladwyd eiddo cyn 1 Ebrill 2000 ac nad yw'r deiliad wedi gofyn am fesurydd, bydd yn talu taliadau anfesuredig. Ni fydd y tâl yn adlewyrchu faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae dwy ffordd o gyfrifo taliadau anfesuredig:

**Tâl gwerth ardrethol** – tâl sefydlog, ynghyd â thâl fesul punt o'r gwerth ardrethol am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth

NEU

**Tâl gwasanaeth unffurf** (ar gyfer eiddo a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 1990 a 31 Mawrth 2000) – mae taliadau'n seiliedig ar werth ardrethol cyfartalog eiddo yng Nghymru.

Mae taliadau dŵr yn cynnwys costau cyflenwi dŵr i'r eiddo.

Mae taliadau carthffosiaeth yn cynnwys y gost o dynnu, trin a gwaredu'r dŵr a ddefnyddir gan gynnwys tâl ar gyfer dŵr wyneb a draenio'r briffordd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, ni fydd yr elfen hon yn daladwy gennych. Mae ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar gael ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu gallwch wneud cais am un drwy ein ffonio ar **0800 052 0140**. Bydd unrhyw ad-daliad yn weithredol o 1 Ebrill 2014 neu'r dyddiad meddiannu os yw'n hwyrach. Lle bo tystiolaeth nad yw dŵr wyneb yn dychwelyd i'r garthffos, fel arfer fflatiau mewn adeilad cyffredin, gall y cwmni hysbysu cwsmeriaid ac addasu eu taliadau yn unol â hynny.

## Tariffau cymorth

Mae'r Cwmni'n cynnig amrywiaeth o gymorth fforddiadwy gyda'r nod o gadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid sydd ag incwm isel neu gwsmeriaid sy'n agored i niwed.

## HelpU

Mae'r tariff hwn yn helpu'r cartrefi yn ein rhanbarth sydd â'r incwm isaf.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y tariff hwn, mae'n rhaid i'r cyflenwad dŵr i'r cartref fod at ddefnydd domestig yn unig ac mae'n rhaid i gyfanswm incwm presennol y cartref fod yn llai na'r trothwy a gyhoeddwyd ar ein gwefan **dwrcymru.com** ac sydd wedi'i gynnwys yn nhelerau ac amodau HelpU ar y ffurflen gais. Mae'r wefan a'r telerau ac amodau hefyd yn nodi'r mathau o incwm y dylid ei gynnwys wrth gyfrifo cyfanswm incwm presennol y cartref.

Fel rhan o'r broses gwneud cais mae ymgeiswyr yn caniatâu i ni ddilysu gwybodaeth a roddwyd yn y cais gyda thrydydd partïon (megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM, yr awdurdod lleol perthnasol, y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig perthnasol, Asiantaethau Gwirio Credyd).

Gellir cwblhau ceisiadau ar-lein yn **dwrcymru.com**. Fel arall, gall cwsmeriaid ffonio **0800 052 0145** am ffurflen gais. Sicrhewch fod eich rhif cyfrif cwsmer wth law, yn ogystal ag enwau a dyddiadau geni pob deiliad dros 16 oed.

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid sy'n cwblhau cais HelpU gael cyngor ynglŷn â sut y gall eu cartref fod yn fwy effeithlon o ran dŵr a byddwn yn cynnig anrheg sy'n arbed dŵr am ddim iddynt.

Mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn darparu manylion cywir am incwm eu cartref. Caiff y wybodaeth a ddarperir ei gwirio â thrydydd partïon annibynnol a chaiff unrhyw honiadau anwir neu gamarweiniol eu gwrthod a gallant gael eu hystyried yn dwyll.

Dylai cwsmeriaid hysbysu'r Cwmni os bydd incwm eu cartref yn newid. Caiff cwsmeriaid ar dariff HelpU eu hadolygu'n flynyddol ac efallai y bydd angen iddynt ddarparu dogfennau perthnasol.

Dylid cyfeirio pob cais ar gyfer HelpU i'r cwmni bilio. Dylai cwsmeriaid sy'n cael eu gwasanaeth dŵr gan gwmni dŵr arall anfon eu cais am ein tariff HelpU at y cwmni hwnnw. Os byddant yn gymwys, byddant yn cael eu rhoi ar y tariff HelpU ar gyfer eu gwasanaeth carthffosiaeth yn unig.

Ar gyfer cwsmeriaid HelpU sydd â mesurydd, os yw'r taliad a gaiff ei gyfrifo ar sail y defnydd gwirioneddol a nodir ar y mesurydd, gan ddefnyddio'r tariff mesuredig safonol, yn llai na thariff HelpU, bydd y bil yn seiliedig ar y darlleniad gwirioneddol. Fel arall ni fydd y bil yn uwch na lefel HelpU.

Nodyn 1: Ni fydd eiddo a gaiff ei filio o dan gytundeb bilio cyffredin yn gymwys ar gyfer HelpU. Fodd bynnag, gall y Cwmni, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ystyried cynnig trefniant cyfatebol i gwsmer domestig lle bydd cartref yn amlwg ac y gellir sicrhau y byddai'r cartref, yn ymarferol, yn cael budd llawn o'r tariff gostyngol.

Nodyn 2: Caiff y tariff ei gymhwyso fel tâl dyddiol a bydd yn weithredol o'r dyddiad y daw'r cais i law.

* Nid yw HelpU wedi ei gynllunio i helpu myfyrwyr mewn addysg llawn amser ac ni dderbyniwn geisiadau gan fyfyrwyr fel rheol. Ar sail disgresiwn, gallwn eithrio incwm myfyrwyr sy'n byw yng nghartref y teulu, sy'n derbyn benthyciad 'ffioedd yn unig'.

## WaterSure Cymru

Mae'r tariff hwn yn helpu teuluoedd mawr a chartrefi lle mae gan aelod o'r cartref gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen iddo ddefnyddio llawer mwy o ddŵr. Dim ond cwsmeriaid sydd â mesurydd a all fanteisio ar y tariff hwn.

Mae'r tariff yn seiliedig ar y rheoliadau a wnaed gan DEFRA o ran grwpiau sy'n agored i niwed ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr yn absenoldeb rheoliadau gan Gynulliad Cymru.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y tariff hwn, mae'n rhaid bod y dŵr a gyflenwir i'r cartref yn cael ei fesur ac ni chaniateir iddo gael ei ddefnyddio er mwyn dyfrio gardd ag offer nas delir â llaw megis taenellwr neu system ddyfrhau ddomestig, neu ail-lenwi pwll neu bwll nofio sy'n gallu dal mwy na 10,000 o litrau. Bydd AMC sy'n cyfateb i dariff WaterSure Cymru yn gymwys lle nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu os yw'n afresymol o ddrud i'w osod ond bod y cwsmer yn bodloni'r meini prawf cymhwyso eraill. Mae'n rhaid bod y cwsmer (neu unigolyn arall sy'n byw yn y cartref) yn cael un o'r budd-daliadau neu'r credydau treth canlynol:

- Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant (heblaw am yr elfen deuluol yn unig)
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Taliadau Annibyniaeth Personol AC:

mae'n rhaid ei fod yn cael budd-dal plant ar gyfer tri neu fwy o blant o dan 19 oed, sydd i gyd yn byw ar y safle ac sydd mewn addysg llawn amser, neu, fod y cwsmer neu rywun sy'n byw yn yr eiddo yn dioddef o un o'r cyflyrau meddygol canlynol sy'n achosi iddynt ddefnyddio llawer mwy o ddŵr (gweler nodyn 1):

- Methiant arennol sy'n gofyn am gael dialysis yn y cartref (heblaw pan fydd yr awdurdod iechyd yn cyfrannu at gost y dialysis)
- Stomau'r abdomen
- Digroeni (colli croen sy'n pilio)
- Clefyd croen diferol (ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)
- Anymataliaeth
- Clefyd Crohn
- Llid briwiol y coluddyn

Mae ffurflenni cais ar gael ar-lein yn **dwrcymru.com** neu drwy ffonio **0800 052 0145**. Bydd angen dogfennau ategol sydd wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol proffesiynol lle y bo'n briodol. Ar ôl iddo gael y ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol, gall y Cwmni gynnal gwiriadau dilysu gyda'r cyrff priodol. Caiff unrhyw geisiadau anwir neu gamarweiniol eu gwrthod a gellir eu hystyried yn dwyll. Cwsmeriaid WaterSure Cymru sydd â mesurydd eisoes – caiff y tâl gostyngol ei gymhwyso i'ch cyfrif o'r diwrnod ar ôl eich darlleniad mesurydd diwethaf, neu ar y dyddiad y gwnaethoch symud i mewn, p'un bynnag yw'r dyddiad diweddaraf. Cwsmeriaid WaterSure Cymru y mae angen gosod mesurydd ar eu cyfer

– os ydym wedi gosod mesurydd yn eich eiddo i chi fod yn gymwys ar gyfer WaterSure Cymru, byddwn yn cymhwyso'r tariff o'r diwrnod y gosodwyd y mesurydd. Os na allwn osod mesurydd yn eich eiddo, caiff y tâl ei gymhwyso i'ch cyfrif o'r dyddiad y daeth y cais i law. Caiff y tariff sydd wedi'i gapio ei gymhwyso fel tâl dyddiol.

Caiff pob cwsmer ar dariff WaterSure Cymru ei adolygu'n flynyddol ac efallai y bydd angen darparu dogfennau perthnasol.

Os yw'r taliad a gaiff ei gyfrifo ar sail y defnydd gwirioneddol a nodir ar y mesurydd, gan ddefnyddio'r tariff mesuredig safonol, yn llai na thariff WaterSure Cymru, bydd y bil yn seiliedig ar y darlleniad gwirioneddol. Fel arall ni fydd y bil yn uwch na lefel WaterSure Cymru.

Dylid cyfeirio pob cais ar gyfer WaterSure Cymru i'r cwmni bilio. Dylai cwsmeriaid sy'n cael eu gwasanaeth dŵr gan gwmni dŵr arall wneud cais i'r cwmni hwnnw am eu tariff WaterSure (y tariff cymorth sy'n berthnasol i gwmnïau dŵr yn Lloegr). Bydd gan gwsmeriaid sy'n gymwys i gael y tariff hwnnw yr hawl hefyd i gael tariff WaterSure Cymru am eu gwasanaeth carthffosiaeth.

Nodyn 1: Gall cyflyrau meddygol eraill sy'n peri i gwsmeriaid ddefnyddio llawer mwy o ddŵr gael eu hystyried hefyd, yn ôl disgresiwn y Cwmni, yn amodol ar gadarnhad annibynnol gan ymarferydd meddygol.

### Cymorth Dŵr Cymru

Bydd pob cwsmer a oedd ar Dariff Cymorth Dŵr Cymru sy'n dal i fod yn gymwys i gael y tariff hwnnw yn cael ei osod yn awtomatig ar WaterSure Cymru o 1 Ebrill 2017. Caiff cwsmeriaid heb fesurydd eu gosod ar AMC WaterSure Cymru.

Codir tâl ar gwsmeriaid cymwys a oedd ond yn talu tâl pontio gwasanaeth carthffosiaeth Cymorth Dŵr Cymru ar sail tâl pontio blynyddol ar gyfer carthffosiaeth yn unig Cymorth Dŵr Cymru. Nid yw'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid a fu'n talu tâl pontio Cymorth Dŵr Cymru cyfunol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth.

### Dŵr Uniongyrchol

Rhoddir gostyngiad blynyddol i bob cwsmer sy'n gwneud taliadau drwy ddidyniadau uniongyrchol o fudd-daliadau cymwys yr Adran Gwaith a Phensiynau (Cymhorthdal Incwm/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm neu Gredyd Pensiwn). Rhoddir y gostyngiad hwn o £25 ar gyfer pob blwyddyn y bydd y cwsmer yn parhau i dalu drwy'r dull hwn.

### Casglu Dŵr

Rhoddir gostyngiad blynyddol i bob cwsmer sy'n gwneud taliadau drwy landlord cymdeithasol cofrestredig neu awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Rhoddir y gostyngiad hwn o £10 ar gyfer pob blwyddyn y bydd y cwsmer yn parhau i dalu drwy'r dull hwn.

# 6. Sut i dalu

Gall cwsmeriaid dalu ar-lein yn **dwrcymru.com** (drwy ddefnyddio Debyd Uniongyrchol neu gerdyn Credyd/Debyd) neu ddefnyddio'r Llinell Dalu Awtomataidd 24 Awr **0800 028 5209**. Sicrhewch fod eich rhif cyfeirnod cwsmer wrth law.

Mae rhestr lawn o'r opsiynau talu a gwybodaeth am ble i dalu i'w gweld isod ac ar gefn eich bil hefyd.

### Debyd uniongyrchol

Gall cwsmeriaid drefnu cynllun debyd uniongyrchol ar-lein yn **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 5604**. Gellir talu debydau uniongyrchol bob blwyddyn, ddwywaith y flwyddyn, bob mis neu bob wythnos. Gall cwsmeriaid â mesurydd dalu ar unrhyw ddiwrnod o'r mis os byddant yn talu bob mis, neu ar ddyddiad y cytunir arno gyda'r cwsmer os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn. Hawlir taliad 14 diwrnod ar ôl i'r bil gael ei anfon, a chaiff hyn ei bennu yn ôl y dyddiad y darllenwyd y mesurydd. Gall cwsmeriaid heb fesurydd dalu ar unrhyw ddiwrnod o'r mis os byddant yn talu bob mis, ar 1 Ebrill ac 1 Hydref os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn, neu ar 1 Ebrill os byddant yn talu bob blwyddyn.

### Cardiau credyd/debyd

Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio eu cardiau debyd/credyd, unrhyw bryd, naill ai ar-lein yn **dwrcymru.com**, neu drwy ffonio ein llinell dalu awtomataidd ar **0800 028 5209**. Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd naill ai'n llawn neu drwy randaliadau pan fydd y taliad yn ddyledus. Sicrhewch fod eich rhif cyfeirnod cwsmer wrth law.

### Llyfr talu

Gall cwsmeriaid â mesurydd sy'n defnyddio llyfr talu dalu bob mis, a gall cwsmeriaid heb fesurydd dalu bob mis neu bob pythefnos. Gellir gwneud taliadau mewn swyddfa bost, mewn banc, drwy man talu PayPoint neu drwy awdurdod lleol.

### Cerdyn talu

Gall cwsmeriaid sy'n defnyddio cerdyn talu dalu bob mis, bob pythefnos neu bob wythnos mewn swyddfa bost neu drwy ddefnyddio man talu PayPoint.

### Taliadau arian parod

Gall cwsmeriaid sy'n talu ag arian parod wneud hynny naill ai'n llawn neu drwy randaliadau drwy ddefnyddio'r bonyn talu ar y llyfr bilio/talu neu'r cerdyn talu:

- mewn swyddfa bost neu fanc (am ddim mewn unrhyw gangen o Natwest neu fanc y cwsmer ei hun)
- drwy fan talu PayPoint
- drwy awdurdod lleol (dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n derbyn taliadau).

### Talu drwy siec

Gall cwsmeriaid dalu drwy siec naill ai'n llawn neu drwy randaliadau. Mae'n rhaid i rif cyfeirnod y cwsmer gael ei ysgrifennu ar gefn y siec, a dylid nodi 'Cyfrif y Talai'. Mae'n rhaid i'r cwsmer ddefnyddio'r bonyn talu ar y llyfr bilio/talu neu'r cerdyn talu, a gall dalu:

- mewn banc (am ddim mewn unrhyw gangen o Natwest neu fanc y cwsmer ei hun)
- drwy fan talu PayPoint
- drwy awdurdod lleol (dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n derbyn taliadau)
- neu gall cwsmeriaid anfon siec yn daladwy i 'Dŵr Cymru Cyf' i:

Gwasanaethau Cwsmeriaid Dŵr Cymru
Blwch SP 690, Caerdydd, CF3 5WL

Fel arfer caiff biliau anfesuredig eu hanfon ym mis Chwefror/Mawrth bob blwyddyn ac maent yn daladwy ar 1 Ebrill oni bai bod trefniant talu arall wedi'i wneud gyda'r Cwmni. Pan gaiff y taliadau anfesuredig eu talu'n llawn, erbyn 1 Ebrill 2018, bydd y Cwmni yn tynnu 1.5% oddi ar y bil blynyddol.

Fel arfer caiff biliau mesuredig eu hanfon i gartrefi bob chwe mis mewn ôl-daliadau ac maent yn daladwy ar gais oni bai bod trefniant talu arall wedi'i wneud gyda'r Cwmni.

Ceidw'r Cwmni yr hawl i bennu amlder biliau cwsmeriaid dibreswyl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff cwsmeriaid dibreswyl eu bilio bob chwarter, os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £750 bob chwarter, neu bob mis, os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £2,000 bob mis. Mae biliau yn daladwy o fewn 14 diwrnod. Caiff cwsmeriaid sy'n cael y tariff diwydiannol eu bilio bob mis.

Gall cwsmeriaid preswyl a'r cwsmeriaid dibreswyl hynny nad ydynt yn talu TAW ar y taliadau ac nad oes ganddynt ôl-ddyledion ar adeg y cais dalu drwy randaliadau. Bydd methu â thalu unrhyw randaliad erbyn y dyddiad dyledus yn arwain at dynnu'r cynllun rhandaliadau yn ôl heb rybudd a bydd balans y taliadau sy'n ddyledus yn daladwy ar unwaith.

Gellir gweld manylion opsiynau talu a gwybodaeth am ble i dalu ar gefn eich bil hefyd.

## Ydych chi'n cael trafferth talu?

Rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth effeithio ar ein cwsmeriaid weithiau, ac y gall hyn achosi trafferth ariannol dros dro neu hirdymor iddynt. Waeth beth fo'r sefyllfa, mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn cysylltu â ni drwy ffonio **0800 052 0145** (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes). Efallai y byddwn yn gallu trefnu i daliadau gael eu gwneud drwy randaliadau bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis.

Efallai y gallwn hefyd leihau taliadau'r cwsmer os yw ei gartref yn gymwys i gael un o'r tariffau Cymorth Fforddiadwyedd a ddisgrifiwyd uchod.

Rydym hefyd yn gweithredu Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a all gynnig cymorth ariannol i gwsmeriaid sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ac sydd ag ôl-ddyledion. Am ragor o wybodaeth gall cwsmeriaid fynd i'n gwefan **dwrcymru.com** neu ein ffonio ar **0800 052 0145**.

Byddem hefyd yn annog pob cwsmer sy'n cael trafferth â dyledion neu incwm isel i ystyried cysylltu â chwmni cyngor ar ddyledion am ddim. Gall y sefydliadau hyn helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwneud y gorau o'u cyllideb a'u budd-daliadau a chyd-drafod â chredydwyr.

Os bydd angen cyngor annibynnol ar gwsmeriaid, gallant gysylltu ag asiantaeth gynghori leol megis:

### Y Llinell Ddyled Genedlaethol
Rhadffon: 0808 808 4000
www.nationaldebtline.org

### Step Change
Rhadffon: 0800 138 1111
www.stepchange.org

### Canolfan Cyngor ar Bopeth
Chwiliwch yn eich 'yellow pages' lleol neu gyfeirlyfr lleol Thomson am gyfeiriadau a rhifau ffôn
www.citizensadvice.org.uk

### Cyngor Cyfreithiol Sifil
Ffôn: 0345 345 4345
www.gov.uk/civil-legal-advice

### Shelter Cymru
Ffôn: 0845 075 5005
www.sheltercymru.org.uk

Waeth beth fo'r sefyllfa, mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn cysylltu â'r Cwmni ar unwaith.

### Cwsmeriaid sy'n cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol

Pan fydd Cwsmer yn cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol bydd y Cwmni yn dosrannu unrhyw daliadau bob dydd hyd at y dyddiad yn union cyn y dyddiad y daw'r weithdrefn ansolfedd berthnasol yn weithredol ('dyddiad yr ansolfedd'). Bydd unrhyw daliadau wedi'u dosrannu ar ôl dyddiad yr ansolfedd yn daladwy gan ddeiliad yr eiddo dan sylw a byddant yn gymwys o ddiwrnod nesaf deiliadaeth ar ôl dyddiad yr ansolfedd. Ni fydd unrhyw daliadau wedi'u dosrannu o'r fath yn dod o dan y weithdrefn ansolfedd. Bydd y taliadau'n daladwy gan y deiliad yn unol â'r un telerau talu ag a fyddai'n gymwys pe bai'r eiddo wedi cael ei gysylltu o'r newydd ar y diwrnod hwnnw.

# 7. Rhestrau taliadau eraill

Mae Dŵr Cymru hefyd yn cyhoeddi'r rhestrau taliadau ychwanegol canlynol;

**Dogfen Tariff Cyfanwerthu**
Taliadau sylfaenol ar gyfer safleoedd cymwys y gellid eu cyflenwi â dŵr drwy awdurdodiad manwerthu cyfyngedig. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys Taliadau nad ydynt yn rhai sylfaenol a fyddai, lle y bo'n berthnasol, yn daladwy gan Fanwerthwr cyflenwad dŵr.

**Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr**
Taliadau ar gyfer cysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gefnogi Datblygwyr.

**Rhestr Taliadau Cyfanwerthu**
Elfennau cyfanwerthu o daliadau dŵr a charthffosiaeth Dŵr Cymru er gwybodaeth yn unig.

# 8. Taliadau Preswyl

## Taliadau anfesuredig safonol

| Gwasanaethau dŵr anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Taliadau Sefydlog | 130.88 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol – fesul punt o werth ardrethol | 0.8370 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 239.69 |

| Gwasanaethau carthffosiaeth anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 182.28 |
| Tâl Sefydlog – ad-daliad Dŵr Wyneb | 126.88 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol – fesul punt o werth ardrethol | 1.1883 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 336.76 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – ad-daliad Dŵr Wyneb | 281.36 |
| Dŵr Wyneb yn unig – gan gynnwys draenio'r brifforddd<br>(ni chodir tâl ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 80.99 |

## Taliadau mesuredig safonol

| | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.3524 | 1.7617 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth – ad-daliad dŵr wyneb fesul metr ciwbig | | 1.3894 |

| Tâl Gwasanaeth | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Hyd at 20mm* | 38.20 | 84.45 |
| 25mm | 38.20 | 84.45 |
| 30mm | 183.79 | 383.83 |
| 40mm | 338.59 | 570.42 |

* Ar gyfer 2017/18, mae'r taliad hwn hefyd yn cynnwys anheddau sydd â system chwistrellu dŵr a fwydir o'r prif gyflenwad y byddai mesurydd 15mm safonol wedi cael ei osod ynddynt fel arall

## Taliadau mesuredig ar sail asesiad

### Dŵr

| Nifer y deiliaid | Band A - defnydd cyffredin<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/offer yn yr eiddo<br>Tâl blynyddol (£) | Band A - defnydd cyffredin<br>Defnydd ($m^3$/y flwyddyn) | Band B - defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/offer yn yr eiddo<br>Tâl blynyddol (£) | Band B - defnydd isel<br>Defnydd ($m^3$/y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 125.76 | 65 | 109.53 | 53 |
| 2 | 169.38 | 97 | 145.04 | 79 |
| 3 neu fwy | 219.42 | 134 | 184.25 | 108 |

### Carthffosiaeth

| Nifer y deiliaid | Band A - defnydd cyffredin<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/offer yn yr eiddo<br>Tâl blynyddol Llawn (£) | Band A - defnydd cyffredin<br>Ad-daliad Dŵr Wyneb Blynyddol (£) | Band B - defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/offer yn yr eiddo<br>Tâl blynyddol Llawn (£) | Band B - defnydd isel<br>Ad-daliad Dŵr Wyneb Blynyddol (£) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 192.82 | 169.92 | 172.73 | 154.08 |
| 2 | 246.79 | 212.49 | 216.67 | 188.73 |
| 3 neu fwy | 308.71 | 261.33 | 265.20 | 227.01 |

## Cymorth fforddiadwyedd

| HelpU | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
| --- | --- | --- |
| Tâl blynyddol | 84.14 | 113.23 |

Mae rhagor o wybodaeth am gymhwysedd cwsmeriaid ar gyfer HelpU ar gael yn **dwrcymru.com**

| WaterSure Cymru | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
| --- | --- | --- |
| Tâl blynyddol | 130.89 | 189.06 |

| AMC WaterSure Cymru | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
| --- | --- | --- |
| Tâl blynyddol | 130.89 | 189.06 |

| Cymorth Dŵr Cymru – Cyfnod Pontio ar gyfer Cwsmeriaid Carthffosiaeth yn unig | Carthffosiaeth (£) |
| --- | --- |
| Tâl blynyddol | 167.50 |

Sylwer: Dyma'r tariff pontio i gwsmeriaid sy'n gymwys i dalu tâl pontio tâl blynyddol carthffosiaeth Cymorth Dŵr Cymru, ac sydd ond yn talu'r tâl hwnnw. Nid yw ar gael i gwsmeriaid a fu'n talu naill ai tâl blynyddol Pontio Cymorth Dŵr Cymru cyfunol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth neu dâl blynyddol Pontio Anfesuredig Cymorth Dŵr Cymru.

# 9. Taliadau dibreswyl

## Taliadau anfesuredig safonol

| Gwasanaethau dŵr anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 109.58 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol – fesul punt o werth ardrethol | 0.9930 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 238.66 |

| Gwasanaethau carthffosiaeth anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 150.54 |
| Tâl Sefydlog – ad-daliad Dŵr Wyneb | 79.86 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol – fesul punt o werth ardrethol | 1.4222 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 335.43 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – ad-daliad Dŵr Wyneb | 264.75 |
| Dŵr Wyneb yn unig – gan gynnwys draenio'r briffordd (ni chodir tâl ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 85.75 |

## Taliadau mesuredig safonol

| | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.4000 | 1.8559 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth – Ad-daliad dŵr wyneb fesul metr ciwbig | | 1.4830 |

| Tâl Gwasanaeth | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Hyd at 20mm | 31.10 | 74.74 |
| 25mm | 100.69 | 258.51 |
| 30mm | 176.68 | 377.75 |
| 40mm | 331.10 | 565.38 |
| 50mm | 503.26 | 994.42 |
| 65mm | 673.85 | 1,600.23 |
| 80mm | 893.30 | 2,316.16 |
| 100mm | 1,063.89 | 4,067.11 |
| 150mm | 1,375.61 | 9,203.75 |
| 200mm a throsodd | 1,375.61 | 16,281.13 |

## Taliadau mesuredig ar sail asesiad

### Dŵr

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Defnydd ($m^3$/y flwyddyn) | Tâl blynyddol (£) |
|---|---|---|
| Band 1 | Llai na 500 | 588.29 |
| Band 2 | 501-1,000 | 1145.26 |
| Band 3 | 1,001-2,000 | 2398.77 |
| Band 4 | 2,001-4,000 | 4347.47 |

### Carthffosiaeth

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Defnydd ($m^3$/y flwyddyn) | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr budr yn unig (£) |
|---|---|---|---|
| Band 1 | Llai na 500 | 769.39 | 622.96 |
| Band 2 | 501-1,000 | 1,463.52 | 1,170.22 |
| Band 3 | 1,001-2,000 | 3,025.26 | 2,401.90 |
| Band 4 | 2,001-4,000 | 5,453.14 | 4,316.66 |

# Tariffau diwydiannol

## Dŵr yfed

| Band | Defnydd dangosol (Ml/y flwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Tâl cyfeintiol (£/$m^3$) |
|---|---|---|---|
| Safonol | <50 | * | 1.4000 |
| 1 | 50 - 99 | 18,944.80 | 0.9914 |
| 2 | 100 - 249 | 24,629.56 | 0.9346 |
| 3 | 250 - 499 | 39,894.93 | 0.8735 |
| 4 | 500 - 999 | 93,080.35 | 0.7671 |
| 5 | >1,000 | 127,740.17 | 0.7325 |

*Gweler y tâl gwasanaeth mesuredig safonol

## Dŵr anyfadwy

| Band | Defnydd dangosol (Ml/y flwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Triniaeth rannol Tâl cyfeintiol (£/$m^3$) | Dŵr heb ei drin Tâl cyfeintiol (£/$m^3$) |
|---|---|---|---|---|
| A | <50 | * | 1.3337 | 1.2311 |
| B RHANNOL | >50 | 42,698.69 | 0.4563 | - |
| B HEB EI DRIN | >50 | 43,318.44 | - | 0.3518 |

*Gweler y tâl gwasanaeth mesuredig safonol

## Carthffosiaeth

| (Ar gyfer carthffosiaeth a ollyngir > 100,000 metr ciwbig y flwyddyn) | (£) |
|---|---|
| Tâl sefydlog | 6,652.64 |
| Tâl cyfeintiol – Gwasanaeth llawn fesul metr ciwbig | 1.6956 |
| Tâl cyfeintiol – Gwasanaeth dŵr budr yn unig fesul metr ciwbig | 1.3409 |

# 10. Taliadau elifion masnach

| | |
|---|---|
| **Cais newydd am ganiatâd i ollwng elifion masnach (TAW ar gyfradd sero)** | £341.00 |
| **Adolygu'r caniatâd presennol ar gais y cwsmer (TAW ar gyfradd sero)** | £341.00 |

Mae taliadau elifion masnach yn cynnwys tâl sefydlog a thaliadau amrywiadwy sy'n amrywio yn ôl cyfaint yr elifion a ollyngir a'u cryfder mewn sampl.

Anfonir y biliau bob Mis, bob Chwarter neu bob Chwe Mis, yn ddibynnol ar y tâl misol ar gyfartaledd. Mae'r taliadau yn daladwy o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonir y bil a gallwch eu talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, BACS neu siec.

Mae'n rhaid gwneud taliadau o fewn 14 diwrnod drwy siec, BACS neu ddebyd uniongyrchol.

Gellir codi tâl am garthffosiaeth ddomestig hefyd, a gyfrifir yn bennaf drwy ystyried y cyfleusterau, nifer y bobl a nifer y dyddiau a weithiwyd, a chaiff bil ei anfon yn erbyn cyfrif ar wahân ynghyd ag unrhyw daliadau dŵr a gaiff eu bilio gan y cwmni.

Gellir bilio am elifion masnach ar sail cyflenwadau dŵr sy'n dod i mewn ynghyd â lwfans neu heb lwfans yn dibynnu ar natur y fasnach a gynhelir ar y safle. Pan fydd y cwsmer yn mynnu bod cyfaint yr elifion a ollyngir yn llai na chyfaint y dŵr a gyflenwir a bod y Cwmni yn cytuno â hyn, bydd yr addasiadau i'r taliadau'n dod i rym o ddechrau'r cyfnod bilio y gwneir y cais ynddo.

Fel arall, gellir cyfrifo taliadau drwy ddefnyddio data llif a ddarperir gan y sawl sy'n gollwng yr elifion ar adeg y cytunir arni gan y Cwmni. Pan fo'r gollyngiad dyddiol yn fwy na 100 metr ciwbig, dylai cyfarpar mesur llif gael ei osod gan y masnachwr ar bob un o'r gollyngiadau elifion masnach. Pan fo gollyngiadau dyddiol yn fwy na 250 metr ciwbig, mae'n rhaid i fasnachwyr osod cyfarpar mesur llif ac mae'n ddyletswydd arnynt i ddefnyddio a chynnal a chadw'r offer er boddhad y Cwmni. Bydd rhaid profi a chynnal a chadw'r cyfarpar yn unol â gofynion y Cwmni fel y nodir yn rheolaidd mewn gohebiaeth ysgrifenedig â'r sawl sy'n gollwng yr elifion.

## Gollwng i waith trin carthion

### Mae'r fformiwla naill ai'n

$$C = R + V + S\frac{S_t}{S_s}$$ (gollwng i driniaeth sylfaenol yn unig)

**Neu**

$$C = R + V + V_b + B\frac{O_t}{O_s} + S\frac{S_t}{S_s}$$ (gollwng i driniaeth eilaidd lawn yn unig)

**Lle mai:**

C = taliad/m$^3$ o elifion

R = costau carthffosiaeth /m$^3$

V = costau triniaeth waddodi sylfaenol /m$^3$

$V_b$ = costau triniaeth eilaidd yn ymwneud â chyfaint /m$^3$

B = costau triniaeth eilaidd yn ymwneud â chryfder/m$^3$

Ot = COD yr elifion ar ôl gwaddoli mewn mg/l

Os = COD y carthion domestig ar ôl gwaddodi – 500mg/l

S = costau trin llaid/m$^3$

St = solidau mewn daliant yn yr elifion mewn mg/l

Ss = solidau mewn daliant mewn carthion domestig – 350mg/l

---

## Gollwng i ollyngfeydd yn y môr

### Ar gyfer masnachwyr sy'n gollwng i ollyngfeydd hir i'r môr

$$C = R + M$$

### Ar gyfer masnachwyr sy'n gollwng i'r holl ollyngfeydd eraill

$C = R$ neu $C = R + V_m$

**Lle mai:**

C = taliad/m$^3$

R = costau carthffosiaeth/m$^3$

M = costau triniaeth forol/m$^3$

$V_m$ = costau pwmpio, triniaeth gychwynnol/m$^3$

## Tariff safonol

| | |
|---|---|
| **Tâl Sefydlog Elifion Masnach** | 25.08 |

### Mae'r taliadau unedol safonol fesul metr ciwbig fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| R | Y gost ar gyfartaledd am dderbyn metr ciwbig o ddŵr budr i mewn i'r garthffos, gan gynnwys ei drawsgludo i'r gwaith trin neu'r ollyngfa | 0.3222 |
| V | Y gost ar gyfartaledd ar gyfer triniaeth gychwynnol a sylfaenol | 0.3985 |
| $V_b$ | Y gost ar gyfartaledd am elfennau pwmpio a gwaddodi'r driniaeth fiolegol | 0.1656 |
| B | Y gost ar gyfartaledd am driniaeth fiolegol, heb gynnwys pwmpio a gwaddodi | 0.2587 |
| S | Y gost ar gyfartaledd am drin a gwaredu llaid sylfaenol yng ngwaith trin carthion mawr y Cwmni | 0.1873 |
| M | Y gost ar gyfartaledd am driniaeth forol drwy ddefnyddio gollyngfa hir i'r môr | 0.2384 |
| $V_m$ | Y gost ar gyfartaledd am bwmpio, triniaeth gychwynnol a gollwng drwy ollyngfeydd | 0.1701 |

## Tariff diwydiannol

Gall cwsmeriaid ddewis y tariff hwn pan fydd 100Ml neu fwy o elifion masnach yn cael eu gollwng o un safle bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Tâl Sefydlog** | 245.12 |

| | | |
|---|---|---|
| R | Y gost ar gyfartaledd am dderbyn metr ciwbig o ddŵr budr i mewn i'r garthffos, gan gynnwys ei drawsgludo i'r gwaith trin neu'r ollyngfa | 0.2122 |
| V | Y gost ar gyfartaledd ar gyfer triniaeth gychwynnol a sylfaenol | 0.3706 |
| $V_b$ | Y gost ar gyfartaledd am elfennau pwmpio a gwaddodi'r driniaeth fiolegol | 0.1540 |
| B | Y gost ar gyfartaledd am driniaeth fiolegol, heb gynnwys pwmpio a gwaddodi | 0.2406 |

## Tâl trwydded ychwanegol

Mae nifer cyfyngedig o ollyngiadau'n cynnwys y fath grynodiad o sylweddau organig cymhleth fel bod Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried bod angen eu rheoli drwy gynnwys cyfyngiadau ar grynodiadau mewn caniatadau gollwng. Mae'n rhaid talu ffi drwydded uwch na'r cyffredin am drwyddedau ar gyfer yr elifion hyn. Pan ellir priodoli'r cynnydd yn y ffi hon i elifiant masnach unigol neu elifion y caniateir iddynt ollwng y sylweddau hyn, caiff y ffi ychwanegol ei hychwanegu at dâl elifion masnach y sawl sy'n gollwng yr elifion.

## Defnyddio gollyngfa

Codir tâl am ddefnyddio gollyngfa Dŵr Cymru i'r môr lle mae gan y cwsmer ganiatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ollwng a'i fod yn gollwng elifion wedi'u trin yn uniongyrchol i'n gollyngfa.

| | |
|---|---|
| **Tâl Sefydlog (£)** | 245.12 |
| **Tâl Cyfeintiol (£)** | 0.0629 |

## Anghydfodau

Gellir cyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch gollwng elifion masnach at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 8.

# 11. Taliadau eraill ar gyfer mesuryddion

## Gosod cofnodwr

| | |
|---|---|
| **Cofnodwr mesurydd – ar gael ar gyfer mesuryddion 15-50mm** Gall cofnodwr, sy'n mesur galw mewn cyfnodau o 15 munud, helpu cwsmeriaid i ddeall eu patrymau defnydd a chanfod a oes unrhyw ollyngiadau yn y cyflenwad. Caiff y tâl ei ad-dalu os bydd gorddefnydd oherwydd gollyngiadau o bibellau Dŵr Cymru. | £58.34 + TAW |
| **Ymweliad gosod cofnodwr mesurydd aflwyddiannus** | Pris ar Gais + TAW |
| **Mynediad at ddata ar-lein o gyfarpar telemetreg a osodwyd ar safle cwsmer** | £20 + TAW |
| **Cais am wybodaeth – copïau argraffedig o wybodaeth gofnodi** | £20.00 + TAW |
| **Darparu a gosod uned guriad a holltwr** | Pris ar Gais + TAW |

## Profi – Preswyl (taliadau'n cynnwys TAW)

| | |
|---|---|
| **Tynnu'r mesurydd i'w brofi** Anfonir anfoneb at y cwsmer os bydd canlyniadau'r prawf yn dangos bod y mesurydd yn cofnodi o fewn paramedrau a ganiateir. Os canfyddir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf. | Costau rhesymol hyd at uchafswm o £70.00 |
| **Unrhyw achos arall** | £20.00 |

## Profi — Dibreswyl

| | |
|---|---|
| Os canfyddir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf. Fel arall codir tâl yn ôl 'Newid Mesurydd' (gweler y tabl gyferbyn) yn ogystal â chost wirioneddol prawf y mesurydd. | Pris ar Gais + TAW |

## Taliadau darllen mesuryddion anghyffredin

Yn unol â'n Cod Ymarfer Darllen Mesuryddion, rydym yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gostau darllen mesuryddion ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i ymddygiad afresymol parhaus gan gwsmer. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **Dilysu manylion mesurydd neu drefniadau cyflenwi mesurydd** | £55.00 + TAW |
| **Ymweliad dilysu mesurydd aflwyddiannus** | £34.00 + TAW |
| **Hysbysiad o Fynediad/Gwarant Mynediad** | Pris ar Gais + TAW |
| **Costau cyfreithiol neu gostau arbenigol eraill** | Pris ar Gais + TAW |
| **Cais am ddarlleniad mesurydd gan y manwerthwr neu'r cwsmer** | £34.00 + TAW |
| **Ymweliad aflwyddiannus** | £34.00 + TAW |

## Newid maint mesurydd

Pan fydd y Cwmni yn gallu gosod mesurydd newydd 'sgriwio i mewn' mewn blwch ffin sydd eisoes yn bodoli heb wneud gwaith ychwanegol, codir tâl o £106. Fel arall nodir y tâl a godir yn y tabl isod. (Os na fydd y mesurydd yn cofnodi'r llif yn gywir, caiff un newydd ei osod am ddim). Os caiff y gwaith ei gwblhau y tu allan i oriau gwaith arferol, efallai y byddwn yn codi costau ychwanegol.

| Maint y mesurydd a gyfnewidir | Tâl (£) heb gloddio + TAW | Tâl (£) gyda chloddio + TAW |
|---|---|---|
| Hyd at 25mm | 156.00 | 475.00 |
| 30mm | 238.00 | 557.00 |
| 40mm | 281.00 | 600.00 |
| 50mm | 502.00 | 821.00 |
| 80mm | 545.00 | 864.00 |
| 100mm | 588.00 | 907.00 |
| 150mm | 857.00 | 1403.00 |
| 200mm | 961.00 | 1507.00 |
| Dros 200mm | Pris ar Gais | Pris ar Gais |

## Ail-leoli mesurydd

Ceisiadau ysgrifenedig i'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan roi rhesymau. Gellir codi tâl ar y cwsmer ar gyfer treuliau rhesymol.

## Tynnu mesurydd

Lle mae mesurydd wedi cael ei dynnu heb ein caniatâd, gallwn gymhwyso costau rhesymol am osod un newydd.

# 12. Taliadau amrywiol

**Mae taliadau'n daladwy ymlaen llaw oni nodir fel arall.**

| Eitem | Tâl | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|
| **Datgysylltu Dros Dro**<br>Noder – Efallai na fydd yn bosibl datgysylltu cyflenwad ar y cyd dros dro. | Am gostau rhesymol + TAW | Gall tâl draenio dŵr wyneb fod yn gymwys o hyd. |
| **Ailgysylltu ar ôl datgysylltiad dros dro** | Am gostau rhesymol + TAW | I wneud cais ffoniwch 0800 052 0130 (neu 0800 260 5051 os ydych yn defnyddio ein Gwasanaeth Rheoli Cyfrif Busnes). |
| **Datgysylltu – parhaol** | Am gostau rhesymol + TAW | Ceisiadau ysgrifenedig i'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| **Ailgysylltu – yn dilyn datgysylltiad parhaol** | Bydd taliadau cysylltiadau newydd yn gymwys | Gweler Taliadau Cysylltiadau Newydd yn Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr |
| **Datgysylltu – methu talu** | Am gostau rhesymol + TAW | |
| **Ailgysylltu — ar ôl talu dyledion**<br>Noder – ni allwn ddatgysylltu safleoedd preswyl yn unig am fethu talu | Am gostau rhesymol + TAW | Bydd y tâl yn cynnwys costau datgysylltu ac ailgysylltu. Efallai y bydd angen blaendal sicrwydd arnom gan gwsmeriaid dibreswyl (h.y. un cylch bilio a thaliadau 3 mis). |
| **Tâl ymweliad aflwyddiannus**<br>(am bob un o'r uchod) | Am gostau rhesymol + TAW | |

## **Dŵr Llongau** (caiff y cwsmer ei anfonebu, TAW ar gyfradd sero)

| | |
|---|---|
| **Yn ystod oriau swyddfa (9.00am – 5.00pm)** | £40.67 + 6.1556 fesul metr ciwbig a gyflenwir |
| **Y tu allan i oriau swyddfa** | £79.72 + 7.0987 fesul metr ciwbig a gyflenwir |

## Gwasanaethau cynllunio brys – darparu dŵr

| Gwasanaeth | Tâl |
|---|---|
| Darparu dŵr drwy ddefnyddio tanceri, bowseri a phaledau brys os ydynt ar gael i'w defnyddio. Codir tâl ar gost resymol am ymweliadau aflwyddiannus. | Pris ar Gais + TAW |

## Safbibellau

Nid oes safbibellau ar gael i'w llogi yn ein depos lleol. Gellir llogi safbibellau oddi wrth ein hasiant penodedig. Dim ond at ddefnydd penodol y gellir llogi safbibellau. Dim ond safbibellau a logir oddi wrth ein hasiant penodedig, gyda'n caniatâd, y caniateir eu defnyddio ar ein rhwydwaith. Mae pob safbibell yn fesuredig a chodir TAW hefyd. Am fanylion llawn, ewch i **dwrcymru.com**.

**Safbibellau i'w defnyddio ym maes adeiladu**
Efallai na fyddwn yn caniatáu i chi logi safbibell. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gael cysylltiad â'n rhwydwaith, a fydd yn fesuredig.

**Eiddo presennol neu dir sydd â chyflenwad dŵr**
Efallai na fyddwn yn caniatau i chi logi safbibell. Efallai y byddwn yn gosod mesurydd ar gyflenwad presennol pan fydd eiddo neu dir yn dod yn wag neu nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, neu pan fydd yn cael ei newid neu ei adnewyddu. Cysylltwch â ni yn **dwrcymru.com**.

**Eiddo presennol neu dir heb gyflenwad dŵr**
Efallai na fyddwn yn caniatau i chi logi safbibell. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gael cysylltiad â'n rhwydwaith, a fydd yn fesuredig. Cysylltwch â'n Gwasanaethau i Ddatblygwyr yn **dwrcymru.com**.

**Safleoedd adeiladu a gwaith peirianneg sifil mawr**
Efallai na fyddwn yn caniatau i chi logi safbibell. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gael cysylltiad â'n rhwydwaith, a fydd yn fesuredig.

## Hydrantau tân

| Gwasanaeth | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Gosod hydrant | Ar brif bibell newydd (diamedr 80-200mm) | 676.00 |
| Gosod hydrant | Ar brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 1,233.00 |
| Gosod postyn/plât marcio | | 130.00 |
| Tynnu postyn/plât marcio | | 130.00 |
| Tynnu'r hydrant | Oddi ar y brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 583.00 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 1 (e.e. caead a ffrâm) | 229.00 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2a (e.e. caead, ffrâm a darn o siambr) | 425.00 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2b (e.e. caead, ffrâm, ailosod, gosod wasier newydd) | 683.00 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 3 (gosod hydrant newydd) | 756.00 |

# Trwsio cyfarpar y Cwmni

Codir tâl am bob darn o waith trwsio i gyfarpar rhwydwaith dŵr neu garthffosiaeth y Cwmni a achosir gan ddifrod gan drydydd parti ar gost resymol.

### Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi

| Arolygydd Unigol | Apwyntiad Cychwynnol | Awr Ychwanegol (Yr un Ymweliad) |
|---|---|---|
| Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi pan fydd angen un arolygydd. Apwyntiad awr. | £55.00 + TAW | £36.00 + TAW |
| Os na allwn gynnal arolwg dilynol am na all y trwyddedai na chwsmer y trwyddedai sicrhau mynediad codir tâl am ymweliad aflwyddiannus. | £34.00 + TAW | |

| Dau Arolygydd | Apwyntiad Cychwynnol | Awr Ychwanegol (Yr un Ymweliad) |
|---|---|---|
| Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi pan fydd angen un arolygydd. Apwyntiad awr. | £99.00 + TAW | £62.00 + TAW |
| Os na allwn gynnal arolwg am na all y trwyddedai na chwsmer y trwyddedai sicrhau mynediad codir tâl am ymweliad aflwyddiannus. | £58.00 + TAW | |

Mae'r tâl safonol yn cwmpasu hyd at awr i'r arolygydd fod ar y safle. Er bod tâl wedi'i gynnwys am un arolygydd, mae'r trefniadau cyflenwi ar gyfer rhai cwsmeriaid yn gymhleth ac, mewn rhai achosion, bydd angen i ddau arolygydd fod yn bresennol am resymau diogelwch. Mae taliadau ychwanegol os bydd angen i'r arolygydd/arolygwyr fod ar y safle y tu hwnt i'r apwyntiad awr neu os bydd angen dychwelyd i gwblhau'r arolwg.

# Archwilio ffitiadau dŵr

Cynnal archwiliad i ganfod a oes unrhyw ddarpariaeth yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu a wnaed o dan y ddeddf honno neu sy'n weithredol o dan y ddeddf honno mewn perthynas ag unrhyw ffitiadau dŵr neu mewn perthynas â gwastraff neu gamddefnyddio dŵr yn cael ei thorri neu wedi cael ei thorri.

| Gwasanaeth | Tâl (£) |
|---|---|
| Archwiliad cychwynnol a gwaith dilynol cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliadau Dilynol | £55.00 |
| Ymweliad Aflwyddiannus | £34.00 |

Ar ôl archwiliad cychwynnol o dan y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr lle mae Dŵr Cymru wedi darganfod tor-rheol, byddwn yn cytuno ar raglen waith ac amserlen i gwblhau'r gwaith gyda'r manwerthwr/cwsmer. Pan na chaiff y camau gweithredu y cytunwyd arnynt eu cwblhau ac mae angen ymweliadau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth, bydd tâl yr awr yn gymwys i gwmpasu costau ymweliadau ychwanegol.

## Gwaith trwsio cysylltiadau dŵr newydd

Caiff ail daliad ei godi am bob darn o waith trwsio, atgyweirio neu adfer a wneir gan y Cwmni ar gysylltiad dŵr neu garthffosiaeth sydd wedi'i osod mewn cyflwr annerbyniol.

| Taliadau atgyweirio | Sylwadau Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Ymweliad aflwyddiannus | Uchafswm tâl | 100.00 + TAW |
| Archwilio Ansawdd Cysylltiad Newydd | Ymweliad cyntaf | Dim tâl |
| Archwilio Ansawdd Cysylltiad Newydd | Cost fesul ymweliad ychwanegol | 38.00 + TAW |
| Gwaith adfer | | Ar gost |

Am ragor o wybodaeth am daliadau cysylltiadau newydd, edrychwch ar 'Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr' Dŵr Cymru.

## Gwaredu gwastraff carthbwll, tanc carthion neu dancer[1]

| Solidau mewn Daliant | Tâl + TAW | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 0 – 2,000 mg/l | £5.29 fesul metr ciwbig | Yn amodol ar isafswm taliad yn seiliedig ar lwyth o 4.5 metr ciwbig (tua 1,000 o alwyni) |
| 2,001 – 20,000 mg/l | £8.77 fesul metr ciwbig | |
| Mwy na 20,000 mg/l | £12.69 fesul metr ciwbig[2] | |

1 Nid yw'r Cwmni yn casglu gwastraff tanc carthion na gwastraff carthbwll domestig fel rhan o wasanaeth carthffosiaeth. Bydd y tâl am garthbwll yn gyfyngedig i waith carthffosiaeth lle mae dynion yn gweithio'n barhaol. Gellir cael manylion y safleoedd hyn drwy ffonio ein hadran Gwasanaethau Carthffosiaeth ar 0800 085 3968.

2 Ceidw'r Cwmni yr hawl i wrthod gwastraff sy'n cynnwys mwy na 20,000 mg/l o solidau mewn daliant.

## Taliadau eraill

| Gwasanaeth | Tâl | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|
| Achosion Gweithredol nad ydynt yn Rhai Brys | Pris ar Gais + TAW | Anfonebir y tâl yn dilyn y digwyddiad. |
| Sieciau a Ddychwelwyd | £20.00 (ni ellir codi TAW) | Am bob siec. Anfonebir y tâl yn dilyn pob digwyddiad. |
| Dogfennau gwybodaeth a chopi | £20.00 + TAW | Codir tâl safonol am unrhyw wybodaeth gyffredin nas darperir am ddim. Codir tâl am ymholiadau eraill ar gost. Codir tâl am wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn unol â'n polisi codi taliadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (ar gael yn dwrcymru.com). |
| Copïo papur gwaith bilio | £20.00 + TAW | Fesul bil neu ddogfen debyg. Ni chodir tâl fel arfer am y cais cyntaf. |

# 13. Taliadau seilwaith

Mae'r taliadau seilwaith ar gyfer cyflenwad at ddibenion domestig yn daladwy o dan Adran 146 o'r Ddeddf ac Amod Trwydded C (fel y'i haddaswyd) o Offeryn Penodi'r Cwmni.

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth a gall hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl cysylltiad dŵr neu garthffosiaeth a/neu dâl archebu, codir tâl seilwaith hefyd am gysylltiad dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiad carthffosiaeth newydd. Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd pan fo safle wedi'i ailddatblygu a'r ailddatblygiad hwnnw yn golygu bod galw'r safle yn fwy nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fel arfer caiff y taliadau hyn eu bilio ar yr un pryd â'r tâl a godir am y cysylltiad. Ni chodir TAW ar daliadau seilwaith.

Codir y taliadau safonol isod ar gyfer eiddo preswyl safonol:

| | |
|---|---|
| **Dŵr** | 379.00 |
| **Carthffosiaeth** | 379.00 |

Caiff taliadau ar gyfer datblygiadau fflatiau a wasanaethir gan swmp gyflenwadau mesuredig ac ar gyfer safleoedd dibreswyl eu cyfrif drwy luosi'r tâl safonol uchod gyda'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr ar y safle a gyflenwir a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (pa un bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

Y tâl ar gyfer datblygiadau fflatiau gyda mesurydd unigol fydd 1 tâl safonol fesul fflat.

| | | Taliadau ar gyfer Cysylltiadau Newydd | Credyd sydd ar gael os yw'r eiddo wedi bod yn wag am lai na phum mlynedd |
|---|---|---|---|
| **Math o Eiddo** | **Math o Ddefnydd** | **Lluosydd Perthnasol** | **Lluosydd Perthnasol** |
| **Preswyl** | Domestig | 1 | 1 |
| **Dibreswyl** | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |
| **Dibreswyl** | Annomestig | Trwy gytundeb ond cyfeiriwch at y tabl drosodd fel canllaw i'r swm lleiaf | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |

### Canllaw i luosyddion perthnasol

Pennir taliadau am gyflenwadau dibreswyl drwy gytundeb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni fydd y lluosydd perthnasol ar gyfer pob maint o gysylltiad (a fydd yn seiliedig ar ddiamedr mewnol y bibell a ddefnyddir i ddarparu'r cysylltiad) yn llai na'r canlynol fel rheol:

| Diamedr Allanol | Diamedr Mewnol | Lluosydd Perthnasol |
|---|---|---|
| Pibell Blastig | | |
| | 15 mm | 1 |
| 25 mm | 22 mm | 1 |
| 32 mm | 25 mm | 4 |
| 50 mm | 40 mm | 9 |
| 63 mm | 50 mm | 16 |
| 80 mm | 65 mm | 25 |
| 90 mm | 80 mm | 36 |
| 125 mm | 100 mm | 64 |
| 180 mm | 150 mm | 144 |
| 250 mm | 200 mm | 256 |

Pennir unedau llwytho drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

| Ffitiad dŵr | Unedau Llwytho |
|---|---|
| Seston fflysio toiled | 2 |
| Basn ymolchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn ymolchi mewn man arall | 3 |
| Baddon gyda thapiau maint 20mm | 10 |
| Baddon gyda thapiau sy'n fwy nag 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc gyda thapiau 15mm | 3 |
| Sinc gyda thapiau sy'n fwy na 15mm | 5 |

| Ffitiad dŵr | Unedau Llwytho |
|---|---|
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offer domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned llwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offer cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu ollyngfa arall (gan gynnwys tap ond heb gynnwys troethle na theclyn meddalu dŵr) | 3 |

## Nodiadau

1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllunio neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw.
2. Mae baddon yn cynnwys baddon trobwll a Jacwsi.
3. Mae offer domestig yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ.
4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).

Pan ailddatblygir safle a bod cysylltiadau yn bodoli ar y safle o fewn pum mlynedd cyn gwneud cysylltiad parhaol newydd cyntaf y datblygiad newydd, efallai y gostyngir cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Caiff nifer yr eiddo domestig a oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle yn ystod y pum mlynedd, neu yn achos safle dibreswyl ddatblygiad yn ystod y pum mlynedd, ei ddidynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd. Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran cysylltiadau carthffosiaeth sydd eisoes yn gwasanaethu'r safle.

Os datgysylltir cyflenwad o fewn dwy flynedd i'w drefnu ac ni wneir unrhyw gysylltiadau pellach ar y safle, yna ad-delir 80% o'r swm a dalwyd.

Gellir ychwanegu llog sy'n daladwy i'r Cwmni, ar y gyfradd gyfredol at unrhyw symiau sy'n ddyledus ar ôl i'r cysylltiad gael ei wneud.

Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir unrhyw dâl seilwaith arno, gellir ei gyfeirio at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 8.

### Lluosydd perthnasol ar gyfer cysylltiadau at ddibenion annomestig

Mae'r categori yn gymwys i bob cysylltiad sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion annomestig (gall cysylltiadau ar gyfer safleoedd adeiladu, cafnau caeau a ffatrïoedd gyda gwasanaethau at ddibenion gweithgynhyrchu fod yn y categori hwn).

Caiff y lluosydd perthnasol ar gyfer cysylltiadau ei bennu yn unol â'r cynhwysedd angenrheidiol ar gyfer y cyflenwad. Os bydd y gost ar gyfer darparu'r seilwaith angenrheidiol yn fwy na dwbl y taliadau seilwaith a gyfrifir gan ddefnyddio'r tabl a ddangosir uchod fel 'Canllaw i Luosyddion Perthnasol', caiff y taliad ei bennu drwy gytundeb arbennig yn seiliedig ar gost wirioneddol darparu'r seilwaith.

Ar gyfer cysylltiadau sy'n fwy na 200mm, pennir y tâl seilwaith drwy gytundeb arbennig ac ni fydd yn llai na'r tâl ar gyfer cysylltiad 200mm.